

Enghraifft o Amodau Trwydded Safle Carafanau ar gyfer Carafanau Gwyliau Sefydlog

Cyfansoddiad y Safle

Ni chaiff cyfanswm nifer y Carafanau a ganiateir ar y safle **fod yn fwy nag X o garafanau gwyliau**. Rhaid i'r safle gael ei meddiannu rhwng **XXX** mewn unrhyw flwyddyn unigol.

A: Ffiniau'r Safle

Rhaid i ffiniau'r safle gael eu nodi'n glir gan nodwedd artiffisial neu naturiol. Ni chaniateir lleoli unrhyw garafán na strwythur hylog o fewn 3 metr i'r ffin. Rhaid darparu cynllun o'r safle i'r awdurdod lleol pan gyflwynir cais am drwydded, neu pan fydd newid pwysig i'r ffiniau neu'r cynllun, neu os bydd yr awdurdod yn gofyn am hynny. Rhaid i'r cynllun roi darlun clir o gynllun y safle gan gynnwys yr holl strwythurau, nodweddion a chyfleusterau perthnasol.

B: Dwysedd

Ni chaniateir i'r dwysedd gros fod yn fwy na 60 carafán fesul hectar, wedi'i gyfrifo yn ôl yr ardal y gellir ei defnyddio (h.y. heb gynnwys llynnoedd, ffyrdd, gwasanaethau cymunedol a mannau eraill sy'n anaddas i leoli carafanau), yn hytrach na'r ardal gyfan.

C: Lle Rhwng Carafanau

Rhaid caniatáu o leiaf 6 metr rhwng carafanau, ond gellir lleihau hynny i 5 metr a 3.5 metr yn y corneli os yw'r carafanau wedi'u gwneud o alwminiwm neu ddeunyddiau eraill sydd â phriodweddau tebyg o ran perfformiad mewn tân. Pan fydd cyfuniad o ddeunyddiau neu gyfuniad o garafanau gwyliau a rhai preswyl parhaol, rhaid caniatáu isafswm o 6 metr rhyngddynt. Ym mhob achos, rhaid i garafanau beidio â bod mwy na 2 fetr o ffordd. Gellir caniatáu rhai achosion o ymwthio i'r gofod o 5 metr neu 6 metr:-

- i) Portsh hyd at 1 fetr os yw o gynllun agored;
- ii) Gall adlen ymwthio cyhyd â bod gofod clir o 3 metr, cyhyd ag nad yw'r adlen gyferbyn ag adlen arall, ac nad yw'n cael ei defnyddio ar gyfer cysgu;
- iii) Bargodau, pibellau draenio a ffenestri crwm cyhyd ag nad yw'r pellter rhwng eithafion dwy uned gyfagos yn llai na 4.5 metr;
- iv) Rampiau ar gyfer yr anabl, ferandâu a grisiau, cyhyd â bod gofod clir o 3.5 metr (4.5 metr mewn achosion lle mae cyfuniad o garafanau), cyhyd ag nad ydynt gyferbyn â rampiau, ferandâu neu risiau eraill, a'u bod heb eu hamgáu;
- v) Garejys, siediau neu fannau storio wedi'u gorchuddio os ydynt o ddeunydd anhylog (gan gynnwys toeon anhylog) ac mae digon o le o'u cwmpas i fedru dianc os bydd tân. Ni chaniateir i ffenestri yn y strwythurau hyn wynebu'r uned ar y naill ochr na'r

llall. Ni chaniateir pyrth ceir a rhodfeydd wedi'u gorchuddio, hyd yn oed os nad ydynt yn hylosg;

- vi) Gellir parcio cerbydau rhwng unedau, cyhyd ag nad ydynt yn achosi rhwystr o ran y drws i'r garafan a bod bwlch clir o 3 metr rhyngddynt ac unedau cyfagos. Gellir parcio cychod plastig neu bren rhwng unedau, yn amodol ar asesiad risg boddhaol gan y gweithredwr.

D: Ffyrdd, Mynedfeydd, Llwybrau Troed

- (i) rhaid cynllunio ffyrdd fel eu bod yn darparu mynediad digonol i gerbydau'r gwasanaethau brys, a rhaid sicrhau nad oes rhwystrau ar y llwybrau o fewn y safle ar gyfer y cerbydau hyn bob amser. Rhaid defnyddio bitwmen, macadam neu goncrit addas â sylfaen cywasgedig addas wrth adeiladu a gosod ffyrdd newydd;
- (ii) rhaid sicrhau bod system ddraenio ddigonol ar bob ffordd ar gyfer draenio dŵr arwyneb/stormydd;
- (iii) rhaid i ffyrdd newydd dwy ffordd fod o leiaf 3.7 metr o led neu'n 3 metr o led os cânt eu defnyddio gan draffig un ffordd;
- (iv) rhaid i systemau unffordd gael eu nodi'n glir;
- (v) lle ceir ffyrdd dwyffordd nad ydynt yn 3.7 metr o led, rhaid darparu manau pasio lle bo hynny'n ymarferol;
- (vi) rhaid i'r mynediad i gerbydau a phob mynedfa i'r safle fod o leiaf 3.1 metr o led gyda chliriad uchder o 3.7 metr o leiaf;
- (vii) rhaid i ffyrdd gael eu cynnal a'u cadw mewn cyflwr da;
- (viii) rhaid i geblau uwchben fodloni'r gofynion statudol; rhaid sicrhau nad oes ceblau uwchben llai na 4.5 metr uwchben y ddaear lle ceir ffyrdd.
- (ix) Rhaid cysylltu pob carafán â ffordd neu lwybr troed sydd ag arwyneb caled nad yw'n llai na 0.75m o led, y mae'n rhaid eu cadw mewn cyflwr da. Lle bo hynny'n ymarferol, ni ddylai llwybrau troed a phalmentydd cymunedol fod yn llai na 0.9 metr o led.
- (x) Rhaid i ffyrdd, llwybrau troed cysylltiol, llwybrau troed cymunedol a phalmentydd gael eu goleuo'n ddigonol rhwng cyfnos a gwawr er mwyn i gerddwyr a cherbydau symud yn ddiogel o amgylch y safle yn ystod y tywyllwch.

E: Arwynebau caled

Rhaid bod gan bob carafán arwyneb caled o ddeunydd addas, y mae'n rhaid iddo gwmpasu holl arwynebedd gwaelod y garafán, a rhaid i arwyneb caled ymestyn am bellter digonol o fynedfa neu fynedfeydd y garafán.

F: Cyflenwad dŵr

Rhaid darparu cyflenwad dŵr cyson, digonol a iach, yn unol â'r is-reolau dŵr priodol a safonau ansawdd statudol. Rhaid sicrhau bod y cyflenwad yn cadw llif a phwysedd digonol, hyd yn oed pan fydd y galw uchaf am y system.

G: Nwy Petrolewm Hylifedig

Rhaid i gyflenwadau a gosodiadau nwy fodloni rhannau perthnasol unrhyw ddeddfwriaeth, Safonau Prydeinig a Chodau Ymarfer y Gymdeithas Nwy LP sydd mewn grym ar unrhyw adeg. Rhaid darparu unrhyw dystysgrifau perthnasol i'r Cyngor ar gais.

H: Gosodiadau Trydanol

- (i) Rhaid bod gan y safle rwydwaith trydan sydd â chapasiti digonol i fodloni holl ofynion rhesymol y carafanau yn ogystal â'r cyfleusterau a'r gwasanaethau eraill sydd ar y safle. Rhaid gwneud unrhyw waith ar y rwydwaith trydan o fewn y safle gan berson cymwys sy'n gwbl gyfarwydd â'r gofynion statudol priodol;
- (ii) Rhaid i osodiadau trydanol fod yn ddarostyngedig i reoliadau'r ddeddfwriaeth berthnasol gyfredol a rhaid iddynt gael eu dylunio, eu gosod, eu profi, eu harchwilio a'u cynnal a'u cadw yn unol â BS 7671: 1992. Rhaid i unrhyw waith ar osodiadau a chyfarpar trydanol gael ei wneud gan unigolion sy'n gymwys i wneud y math penodol o waith dan sylw yn unig.

I: Draeniad, Hylendid a Chyfleusterau Ymolchi

- (i) Rhaid bod gan bob carafán ei chyflenwad ei hun o ddŵr, toiled, bath neu gawod, basn, sinc, dŵr poeth ac oer;
- (ii) Rhaid bod darpariaeth foddhaol ar gyfer draenio dŵr brwnt a dŵr gwastraff naill ai trwy gyswllt â charthffos gyhoeddus neu waith trin carthffosiaeth neu drwy ei ryddhau i danc septig sydd wedi'i adeiladu'n gywir neu garthbwell sydd wedi'i gymeradwyo gan yr awdurdod lleol;
- (iii) Rhaid i'r holl ddarpariaeth draenio a glanweithdra gydymffurfio â deddfwriaeth a safonau Prydeinig neu Ewropeaidd cyfredol. Rhaid i waith ar ddraeniau a charthffosydd gael ei wneud gan unigolion sy'n gymwys i wneud y math penodol o

waith dan sylw yn unig, a rhaid iddo gydymffurfio â deddfwriaeth a safonau Prydeinig neu Ewropeaidd cyfredol;

- (iv) Darperir draenio dŵr arwyneb lle bo hynny'n briodol er mwyn osgoi pyllau o ddŵr sy'n sefyll.

J: Casglu a Gwaredu Sbwriel

- (i) Lle darperir biniau sbwriel cymunedol, rhaid iddynt fod o wneuthuriad anhylosg ac wedi'u cadw mewn storfa finiau sydd wedi'i hadeiladu'n gywir;
- (ii) Rhaid bod gan bob bin sbwriel gaead sy'n ffitio'n dynn. Gellir darparu system sach blastig yn lle, ond rhaid sicrhau na all anifeiliaid ac adar ymosod arno;
- (iii) Rhaid gwaredu pob sbwriel yn unol â'r holl ddeddfwriaeth a rheoliadau cyfredol.

K: Parcio

Rhaid darparu lle parcio ar gyfer o leiaf un car wrth bob carafán, a pharcio ychwanegol digonol i ymwelwyr, wedi'i leoli'n ddiogel, gan ganiatáu mynediad clir i gerbydau argyfwng. Ni ddylid parcio cerbydau fel eu bod yn rhwystro lôn gerbydau, llwybr troed na drws i garafán.

L: Lle Hamdden

Ar safleoedd lle mae'n ymarferol gwneud hynny, rhaid dyrannu lle addas sy'n cyfateb i ryw ddegfed ran o gyfanswm arwyneb y safle ar gyfer gêmâu plant a dibenion hamdden eraill.

M: Hysbysiadau a Gwybodaeth

Rhaid arddangos yr arwyddion/hysbysiadau canlynol mewn man amlwg:-

- (i) enw'r safle wrth y mynedfeydd i'r safle, ynghyd ag enw, cyfeiriad a rhif ffôn cyfredol deilydd y drwydded a'r rheolwr, a manylion cyswllt mewn argyfwng, h.y. yn nodi'r camau i'w cymryd mewn argyfwng, ac yn dangos ble gellir cysylltu â'r heddlu, y frigâd dân, yr ambiwlans a meddygon lleol;
- (ii) cynllun cyfredol o'r safle gyda'r ffyrdd a'r lleiniau wedi'u nodi arno yn y mynedfeydd, gan gynnwys lleoliad ffôn argyfwng y safle;
- (iii) lleoliad a chyfeirnod grid y safle yn ymyl y ffôn argyfwng;
- (iv) yn ogystal, bydd y canlynol ar gael i'w harchwilio mewn lle amlwg:

copi o drwydded y safle a'r amodau cysylltiedig;
copi o'r adroddiad archwilio trydanol cyfnodol diweddaraf;
copi o dystysgrif yswiriant atebolrwydd cyhoeddus perchennog y safle;
copi o'r asesiad risgiau tân a wnaed ar gyfer y safle.

- (v) Rhaid i bob hysbysiad gael ei ddiogelu'n briodol rhag y tywydd a rhag golau haul uniongyrchol;
- (vi) Os oes llinellau trydan uwchben ar y safle, rhaid arddangos rhybuddion ar y cynhalion ac wrth y fynedfa i'r safle. Lle bo hynny'n briodol, rhaid i'r rhain rybuddio ynghylch perygl cyswllt rhwng y llinellau hyn a mastiau iotiau neu ddingis.

N: Llifogydd

Rhaid i berchennog y safle ganfod a yw'r safle mewn perygl o ddioddef llifogydd trwy gyfeirio at Fap Llifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru. Lle ceir perygl llifogydd, rhaid i berchennog y safle ymgynghori â Chyfoeth Naturiol Cymru i gael cyngor ynghylch tebygolrwydd llifogydd, dyfnder a chyflymder y dyfroedd y gellid eu disgwyl, argaeledd gwasanaeth rhybuddio, a pha gamau priodol i'w cymryd.

O: Cydymffurfio â Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005

Rhaid i berchennog y safle sicrhau bod y fersiwn ddiweddaraf o'r asesiad risgiau tân a gynhelir o dan Orchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 ar gael i'w harchwilio gan y trigolion a bod copi o'r asesiad risg ar gael i'r awdurdod lleol yn ôl y gofyn.

P: Cyffredinol

Rhaid cadw'r carafanau, y gwasanaethau, yr amwynderau, a'r adeiladau a'r strwythurau eraill ar y safle, cyfarpar chwarae neu gyfarpar arall, a'r safle ei hun mewn cyflwr da, ac yn lân, yn ddiogel, yn hylan, yn daclus a heb groniadau bob amser.

Rhaid bod ffôn ar gael ar y safle bob amser i alw'r gwasanaethau brys.